Cofnodion Pwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ddydd Mercher, Mawrth 11eg 2009 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.00pm

Presennol: Y Cyng Colin Jenkins, y Cyng Roy Davies, y Cyng Christopher Parish, Y Dirprwy Faer y Cyng Charlotte Leadbeater, y Cyng Fran Murphy, y Cyng Julia Jones.
Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau Y Maer y Cyng Edward Thomas, y Cyng Richard Wallace, y Cyng Dawn Wallace, Clerc y Dref

Cof 276 / Mawrth / 09 Ceisiadau Cynllunio i'w Penderfynu

E/20464 Tŷ sengl dwy ystafell wely (ail gyflwyno E/20141 wedi ei wrthod 18.12.08) ar dir tu ôl i 56, Heol Newydd
Dim gwrthwynebiad, ar yr amod ei fod yn cydymffurfio â'r holl reoliadau cynllunio a phriffyrdd cyfredol

Cof 277 / Mawrth / 09 Ceisiadau Cynllunio i'w Penderfynu

E/20464 1x Arwydd ffasgia, 1x arwydd totem, 2x byrddau bwydlenni, 6x arwyddion meysydd parcio yn Cooperative Retail Services Ltd, Heol Rhosmaen.
CANIATAWYD

Cof 278 / Mawrth/ 09 Nid oedd unrhyw Geisiadau Cynllunio i'w Penderfynu

Cof 279 / Mawrth / 09 Nid oedd unrhyw Geisiadau Cynllunio wedi eu tynnu'n ôl

Cof 280 / Mawrth/ 09 Nid oedd unrhyw Apeliadau Cynllunio

Cof 281 / Mawrth /09 Materion Cludiant a Phriffyrdd

1. Julian Murphy CSC, ateb i'r adroddiad bod car wedi ei adael yn ofer ar Heol Latimer. Bydd CSC yn symud y car.

Cof 282 / Mawrth / 09 Adroddiad y Swyddog Technegol
Adroddodd y Swyddog Technegol bod Lorne Stewart wedi addo cwblhau'r gwasanaeth ar y bwyler yn Neuadd y Sir o fewn y bythefnos nesaf.

Cof 283 / Mawrth /09 Gohebiaeth

1. Un Llais Cymru, cyfarfod Ardal Caerfyrddin ar 17.3.09 yng Nghastellnewydd Emlyn. Byddai'r Cyng Chris Parish yn cynrychioli'r Cyngor yn y cyfarfod.

2. Cynnig y Cyng Roy Davies i ddatblygu llwybr cerdded o amgylch ffin Llandeilo. Cymeradwywyd y dylai'r Cyng Davies ddatblygu'r cynnig ymhellach a chysylltu â thîm prosiect Tywi Afon yr Oesoedd i geisio cefnogaeth.

Cof 284 / Mawrth / 09 Unrhyw eitemau eraill o fusnes sydd oherwydd amgylchiadau arbennig yn ôl y Cadeirydd yn haeddu sylw brys yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Mynegwyd rhywfaint o bryder bod siop elusen arall ar fin agor ar Heol Rhosmaen.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.30 pm